**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 24 EBRILL 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mrs Catherine Thomas (Cynorthwyydd Arolygon)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:40

**Ymddiheuriadau:** Mae Mr Ceri Stradling yn anfon ei ymddiheuriadau am beidio â mynychu.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant mewn perthynas â materion ar yr agenda.

1.2. Dywedodd Mr David Powell wrth y Comisiwn ei fod yn aelod o Gymdeithas y Cerddwyr, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Coed Cadw (Woodlands Trust), a fyddai'n cael ei nodi yn ei ddatganiad cyffredinol.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Nid oedd unrhyw faterion newydd ar gyfer briff y Cadeirydd, y tu hwnt i'r eitemau ar yr agenda a oedd yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 4 Ebrill 2018 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol::

- **(Mater 1) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach** – roedd cynnydd yn dal i fynd rhagddo i ymgeisio am y wobr hon.
- **(Mater 3) Adeilad** – roedd trafodaethau ynglŷn â phrydles Tŷ Hastings yn parhau; trwy lythyrau, pwyso ar yr asiantau sy'n gweithredu yn y brydles er mwyn datblygu/mynd ar drywydd y trafodaethau a pharhau i gynnig taliadau rhent i'r prydleswr yn unol â thelerau'r (hen) brydles bresennol. **Gweithredu: Y Prif Weithredwr**
- **(Mater 4) Adeilad** - mae'r gwaith ailaddurno a gosod goleuadau wedi'i gwblhau.
- **(Mater 6) Polisïau Adnoddau Dynol** – roedd y gwaith o ddiwygio'r polisïau adnoddau dynol yn mynd yn ei flaen.
- **(Mater 9) Buddsoddwyr mewn Pobl** – cynhelir ailasesiad yn yr haf, a bydd paratoadau yn dechrau ar gyfer hyn.

## 5. Papur Gwyrdd – Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni i Bobl

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Ebrill 2018 gan y Prif Weithredwr.

5.2. Darparodd yr Adroddiad ymatebion drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd.

5.3. Ystyriodd y Comisiwn yr ymatebion drafft, penderfynodd y Comisiwn bwysleisio pwysigrwydd eglurder ar y penderfyniad ac ôl troed ar gyfer dyfodol Llywodraeth Cymru yn ei ymateb.

5.4. **Cytunodd** y Comisiwn ei bod yn bwysig pwysleisio, o ran unrhyw benderfyniad a wneir, y byddai angen rhoi eglurder ar dasgau'r Comisiwn yn y dyfodol cyn mis Mawrth 2019, er mwyn galluogi cynnal etholiadau i gysgodi awdurdodau ym mis Mai 2021, a phwysleisio goblygiadau amser ac adnoddau'r opsiynau a gynigir yn y Papur.

5.5. **Cytunwyd** y byddai drafft arall o'r ymateb yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Mai.

## 6. Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ddinbych – Adroddiad Opsiynau

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal y Rhyl a Rhuddlan/Dyserth sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Dyserth, Rhuddlan, y Rhyl Trellewelyn a'r Rhyl Tŷ Newydd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n sicrhau bod Dyserth a Rhuddlan yn aros yn wardiau etholiadol ar wahân.

6.3. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 2 ar gyfer ardal Dinbych sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bodelwyddan, Canol Dinbych a Dinbych Uchaf gyda Henllan, Dinbych Isaf a Threfnant

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n sicrhau bod elfennau gwledig Trefnant yn aros mewn un ward etholiadol â ffocws gwledig.
- Mae'n cadw rhaniad cymunedol presennol yn Ninbych, ond cydnabyddir bod cysylltiadau da gan Henllan â Dinbych, ac mae'n creu'r cysylltiadau gorau o ran cydlyniant cymunedol o gymharu ag opsiynau eraill.

6.4. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer yr ardal Wledig sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Efenechtyd, Llanarmon-yn-Iâl a Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanferres a Llangynhafal, Llandyrnog, Llanfair Dyffryn Clwyd a Gwyddelwern, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, a Thremeirchion.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol
- Mae'n cadw'r nifer fwyaf o wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cadw'r holl wardiau un aelod ar draws yr ardal.

6.5. **Cytunodd** y Comisiwn Opsiwn 1 ar gyfer ardal Corwen a Llandrillo sy'n cynnwys ward arfaethedig:

Corwen a Llandrillo

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol
- Er ei fod yn creu ward aml-aelod mewn ardal wledig, ceir cysylltiadau cyfathrebu ac elfennau cyffredin rhwng y ddau.

6.6. Bydd yr enw arfaethedig yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg i gael sylwadau. Bydd drafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. CR5 – **Cytunodd** y Comisiwn fod cam lliniaru ychwanegol adroddiadau misol y prosiect TGCh i gyfarfodydd y Comisiwn yn cael ei ychwanegu, ac y byddai'r sefyllfa gydag ATOS yn cael ei adolygu yn y cyfarfod nesaf.

7.3. CR8 – **Cytunodd** y Comisiwn y dylai'r teitl gael ei newid i gyfeirio at y Papur Gwyrdd, ac y dylai'r canlynol gael eu hychwanegu fel camau lliniaru:

- Ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad gyda chrynodeb o'r pwyntiau allweddol; a
- Recriwtio Swyddog Arolygon ychwanegol.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cyllid. Nododd aelodau'r tanwariant o £45,231 ar ddiwedd 2017-18, sef £36,868 mewn perthynas â CFfDLC, ac £8,545 mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

8.2. Ystyriodd y Comisiwn Atodiad A i'r adroddiad a amlinellodd y gwahaniaeth rhwng y gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2017-18 a'r gwariant terfynol, ac a roddodd resymau am yr amrywiannau ar gyfer categorïau'r gyllideb. Hefyd, nododd y Comisiwn ddyraniadau'r gyllideb a chategorïau'r gyllideb ar gyfer 2018-19 a oedd yn ystyried y rhesymau dros amrywiannau yng nghyllideb y flwyddyn flaenorol. **Cytunodd** y Comisiwn yr adroddiad a'r Gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

## 9. Adroddiad Cynnydd Trawsnewid TGCh

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 17 Ebrill 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a’r diweddariad llafar.

## 10. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 17 Ebrill 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

10.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

10.3. Hefyd, ailddatganodd y Comisiwn ei ymrwymiad na fyddai’n newid ffiniau cymunedol allanol ar ôl y cam Cynigion Drafft gan na fyddai’n briodol gwneud y cyfryw gynigion heb ymgynghori’n gyhoeddus arnynt. Nododd y Comisiwn mai’r cyfnod priodol i adolygu ffiniau fyddai mewn arolwg cymunedol yn cael ei arwain gan y cyngor perthnasol ar ôl i adroddiad yr Argymhellion Terfynol gael ei gyhoeddi.

## 11. Adroddiad Cynnydd ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2018 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. Awdurdododd y Comisiwn dirprwyo i’r Prif Weithredwr unrhyw faterion yn ymwneud â sicrhau DPO cyn 25 Mai 2018.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. Nodwyd y calendr gan y Comisiwn.

## 13. Unrhyw Fusnes Arall

13.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i’w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Mai 2018**